**COFNODION O GYFARFOD O GYNGOR CYMUNED LLANRUG A GYNHALIWYD 18 O ORFFENNAF 2023 AM 19:00 DRWY ZOOM.**

**PRESENNOL:** Y Cynghorwyr Avril Jones (Cadeirydd), Alan Pritchard, Phillip Roberts, Richard Robinson, Gwynedd Williams, Hefin Jones, Berwyn Parry Jones, Rhys Parry, Ann Lawton.

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd, Beca Brown

**1176. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Oherwydd nad oedd Cadeirydd y Cyngor yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, fe gadeiriwyd y cyfarfod gan Is-gadeirydd y cyngor sef Y Cynghorydd Avril Jones**.**

Diolchodd y Cadeirydd i bawb am eu presenoldeb

**1177 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1178. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w datgan fel yn briodol.

Fe ddatgelodd yr isod fuddiant sydd yn rhagfarnllyd ac yn fuddiant personol sydd mor arwyddocaol fel y gall aelod gwybodus o'r cyhoedd ystyried ei fod yn rhagfarnllyd

Eitem 1185a – Y Cynghorwyr Avril Jones a Gwynedd Williams

Eitem 1185c – Y Cynghorydd Ann Lawton

Ni chymerodd yr aelodau uchod unrhyw rhan yn y penderfyniad

**1179. I gadarnhau cofnodion cyfarfod 20 Mehefin 2023**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1180. Unrhyw fater yn codi o gofnodion cyfarfod 20 Mehefin 2023**

**1181. I dderbyn adroddiad gan Gadeirydd Pwyllgor y Fynwent.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Phillip Roberts, Cadeirydd Pwyllgor y Fynwent, fod y pwyllgor wedi cyfarfod neithiwr (17.7.2023) ac ymysg yr hyn a argymhellir oedd:-

- Ddrafftio Polisi Cofebion : ddrafft i'w cyflwyno yn cyfarfod llawn nesaf o'r Cyngor mis Awst.

- Parhau gydag Asesiadau Risg (rhestr wirio gan y cynghorwyr)-cyfarfod ar y safle 19.8.23.
- Cyfarfod nesaf y pwyllgor ; Medi 11 , 6 p.m. yn y Fynwent. Agenda i gynnwys eitem ar weithredoedd gwyrdd.

<u>Gweithredoedd eraill:</u>

Cyflwyno cais Mynwent y Flwyddyn (erbyn diwedd mis Gorffennaf).

Plac i'r gofod newydd wedi'i archebu (cyfarfod yn y Fynwent 27.6.23)

<u>Cyfarfodydd ymhellach</u>

- Torri gwair - cyfarfod gyda'n contractwr torri gwair
- Trefnu cyfarfod gyda cynrychiolydd Elusen Peris yn y Fynwent parthed y hysbysfwrdd ( 5.45 p.m.,24/7/23?).

<u>Materion eraill:</u>

- Wal yr hen Fynwent bellach wedi ei thrwshio
- Ymddygiad un o drigolion Llanrug.

**Penderfynnwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1182. I dderbyn diweddariad ar Fareshare.**

Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones ei fod ef, a'r Cynghorydd Beca Brown a'r clerc wedi cyfarfod a Rheolwyr Fareshare yn Lerpwl i geisio datrys yr anghydfod presennol a'r ffaith fod y cyngor wedi cael eu camarwain gan un o'r gyn weithwyr.

Adroddwyd ein bod wedi cael croeso cynnes iawn a cafwyd taith o gwmpas y warws i weld eu trefniadau.

Roedd y cyfarfod wedi bod yn fuddiol dros ben ac mae'n edrych yn debyg fod datrysiad i'r broblem wedi dod i law.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am y wybodaeth

**1183. I dderbyn adroddiad ar y cyd oddiwrth y Cynghorwyr Beca Brown a Berwyn Parry Jones sef aelodau dros Cwm y Glo a Llanrug ar Gyngor Gwynedd.**

**Cyfarfod y Cabinet 11 Gorffennaf**

Mabwysiadwyd llawlyfr Priffyrdd. Fydd hwn yn gosod strategaeth clir i'r Cyngor ar sut i drin tyllau yn y ffyrdd. Hefyd bydd yn newid y ffordd bydd gwaith cynnal ffyrdd yn cael ei ariannu. Yn y gorffennol roedd yn cael ei

ariannu ar sail faint o filltiroedd o ffyrdd sydd yn bob ardal. Mi fydd y strategaeth newydd yn blaenoriaethu ar sail risg.

**Cyffredinol**

Bu y ddau ohonom ar hyfforddiant:-

1. Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl - cwrs mewnol gan y Cyngor.
2. Hyfforddiant Cenedlaethol i Llywodraethwyr ysgolion ar yr effaith mae tlodi plant yn cael ar ei addysg a sut i fynd i'r afael a fo.

Roedd Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio ariannu cinio am ddim dros y gwyliau haf eleni, i'r plant sydd yn cael cinio am ddim fel arfer. Mae Beca yn dod a cynnig o flaen y Cabinet dydd Iau fod Cyngor Gwynedd yn ariannu hyn.
Nodyn ar ôl y cyfarfod:- Fe basiwyd y cynnig i ariannu'r cinio yn unfrydol gan y Cabinet.

Bum mewn cyfarfod o'r Bwrdd Newid Hinsawdd yn ddiweddar:-
Mae'r Cyngor yn ceisio fod yn net zero erbyn 2030. Mae llawer o'r allyriadau carbon sydd yn cael ei cyfrif yn deillio o'r broses caffael. Ac wrth gwrs hwn yw'r un mwyaf anodd i'r Cyngor ddelio hefo, gan fod o ddim dan reolaeth y cyngor.

Dal i weithio ar cael fflyd werdd, SP Energy yn methu cadw i fyny hefo gosod pwyntiau gwefru. Mi fydd yn sialens cael loriau mawr ac yn y blaen yn fwy gwyrdd

Bum mewn cynhadledd rheoli risg o lifogydd. Hwn yn mynd i fod yn sialens mawr i ni. Yn amlwg mae'r argyfwng newid hinsawdd yn gwneud pethau yn waeth.

Grŵp cyswllt y trydydd sector – roedd cyfarfod cyntaf y grŵp wyneb i wyneb ers y pandemig yn swyddfeydd Age Concern yn Bontnewydd. Pwrpas y cyfarfod oedd i weld sut y gallai Cyngor Gwynedd helpu y sector, a sut fedr y sector helpu y Cyngor. Roedd pawb yn cytuno fod cyfathrebu clir yn bwysig.

Wedi cael diweddariad eto gan y gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu – pethau yn symud ymlaen, ond mae mynd i gymryd amser i wedd newid y gwasanaeth. Mae newid diwylliant yn cymryd lle, angen lleihau salwch ac goramser. Mae'r gweithlu a'r Undebau yn cytuno fod angen y newidiadau.
Mae Beca yn awyddus i wneud diwrnod newid gwisg ysgol eto, yn y Sefydliad Coffa yn Llanrug. Bydd cyfle i rieni ddod i nôl gwisgoedd i'w plant, ac hefyd i ddod a dillad nid ydynt angen i'w ail-gylchu.
Mae Beca hefyd wedi bod yn llwyddiannus yn gwneud cais am grant Unigedd ac Ynysig, sydd yna i helpu bobol ddod at ei gilydd a cymdeithasu. Ei bwriad ydi cynnal digwyddiadau tê pnawn gyda adloniant yn y Sefydliad yn ystod yr Hydref a'r Gwanwyn.

Partneriaeth Biosffer Dyfi.

Bum mewn cyfarfod arall o'r Bartneriaeth Biosffer Dyfi.

Yn dilyn cyfarfod gyda'r Gweinidog Julie James, cafwyd ymrwymiad o arian ganddi i alluogi prosiectau mwy cael eu ariannu. Erbyn hyn mae hi wedi cytuno I roi £30 mil iddynt i alluogi nhw i rhoi gwell strwythur yn ei le, maent yn edrych ar y posibiliadau ar hyn o bryd – pethau fel gofyn i mudiadau eraill ei lletyo ac yn y blaen. Disgwylir penderfyniad erbyn y cyfarfod nesaf.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1184. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Hefin Jones parthed Deddf Eiddo.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Hefin Jones ei fod wedi mynychu cyfarfod wedi drefnu gan Gymdeithas yr Iaith ar Ddeddf Eiddo a rhoddwyd crynodeb o'r cyfarfod/

**Penderfynnwyd:**

a) Derbyn a diolch am yr adroddiad;
b) Y Cynghorydd Hefin Jones i gysylltu a'r trefnwyr am y ddogfen;
c) Y Clerc i'w gylchredeg gyda'r aelodau

**1185. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C23/0425/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Estyniad cefn deulawr ynghyd â newid tô y modurdy presennol i dô crib wedi ei orffen gyda llechi.
**Ymgeisydd:** Miss Caryl Bayliss
**Asiant:** Mr Eric Hughes
**Cyfeiriad:** Gwel Afon, 4, Tai Crawia, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BP
**Cyfeirnod Grid:** 253398.98, 364214.81
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C23/0511/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Adeiladu mynedfa gerbydol "gloch" dros dro (am hyd at 12 mis) gyda leiniau gwyn a seilwaith cysylltiedig, i gefnogi cynllun ehangach amnewid Cebl Pentir Dinorwig.

**Ymgeisydd:** Aileen Smith (National Grid)
**Asiant:** Juan Murray (The Environment Partnership)
**Cyfeiriad:** Land Off A4086, Cwm Y Glo, LL55 4EE
**Cyfeirnod Grid:** 255661.48, 362191.48
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C23/0358/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Dymchwel estyniad yn cynnwys baddon ac ystafell aml bwrpas ac adeiladu ystafell wely gyda baddon, cegin a ystafell fyw. Codi paneli haul ar ddaear (14 panel). Gosod tanc septic newydd.
**Ymgeisydd:** Sion Humphreys
**Asiant:** Mr Jim Humpherys Sethi
**Cyfeiriad:** Pant Bryn Gwyn, Ceunant, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4RH
**Cyfeirnod Grid:** 253908.96, 362627.57
**Ward:** Cwm y Glo
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Cefnogi’r cais

Daeth y cyfarfod i ben am 19:50

Arwyddwyd:

Cadeirydd: Dyddiad: